

## Gwybodaeth i Gleifion

### Clefyd Llid y Coluddyn - Azathioprin a Mercaptopurin

#### **Beth yw fy meddyginiaeth?**

Mae Azathioprin yn gyffur sy'n gweithio drwy leihau gweithrediad celloedd gwaed gwyn, ac felly mae'n tawelu adweithiau imiwnolegol a llidus y corff. Gelwir ef hefyd yn gyffur imiwnoataliol, oherwydd ei fod yn lleihau gweithrediad y system imiwnedd. Mae Mercaptopurin yn gyffur hynod debyg. Mewn ffaith, mae Azathioprin yn cael ei dorri i lawr i ffurfio Mercaptopurin ar ôl amsugniad o'ch perfeddyn. Yng ngweddill y daflen hon, mae'r sylwadau'n cyfeirio at y ddau gyffur yn yr un modd, heblaw'r ddos, sy'n is i Mercaptopurin.

#### **Beth yw pwrpas y feddyginiaeth?**

Mewn Clefyd Llid y Coluddyn (Crohn's a cholitis briwiol), gwyddys bod Azathioprin a Mercaptopurin yn lleihau adweithiau llidus yn y perfeddyn, (ac mewn manau eraill o'r corff os bydd y rheiny'n rhan o'r dolur hefyd). Bydd cleifion yn cael y rhain pan fydd achosion cyson o'r clefyd neu lle nad yw'r clefyd yn ymateb yn llawn i gyffuriau steroid, neu'n dychwelyd ar ôl gorffen y ddos o steroid. Mewn rhai cleifion gyda llawer iawn o lid, maen nhw'n dechrau'n gynnar yn y driniaeth. Mae'r cyffuriau'n gweithio'n araf ac yn cymryd o leiaf dau neu dri mis i gael effaith. Felly, byddan nhw'n cael eu dechrau'n aml tra bydd cleifion yn dal i fod ar steroidau. Dangosodd treialon y gall hyn wedyn ei gwneud hi'n haws i gleifion ddod i ffwrdd oddi ar eu steroidau'n raddol (dros yr ychydig fisoedd nesaf).

Yna'n aml, byddwn ni'n cadw cleifion ar y cyffuriau am nifer o flynyddoedd os bydd y clefyd yn dod o dan reolaeth a thra na fydd unrhyw sgil effeithiau.

#### **Sut a phryd y dylwn i gymryd Azathioprin neu Mercaptopurin?**

Dylech fel arfer gymryd y tabledi unwaith y dydd yn y bore. Fel arfer, byddan nhw'n dechrau'r cyffur gyda dos fechan ac yna'n ei chynyddu'n raddol i'r ddos derfynol o tua: - Azathioprin 2 mg i bob kilogram (e.e. 100 i 150mg y dydd i oedolyn o bwysau arferol) Mercaptopurin 1.5 mg i bob kilogram (e.e. 75 i 125mg y dydd i oedolyn o bwysau arferol).

#### **Alla i gymryd meddyginiaeth arall?**

Yr unig gyffur sy'n cael ei ragnodi'n gyffredinol ac sy'n amharu ar Azathioprin neu Mercaptopurin yw Allopurinol - a ddefnyddir ar gyfer gowt. Mae'n *rhaid* i chi drafod hyn gyda'r meddyg sy'n rhagnodi os ydych chi'n cymryd Allopurinol.

#### **Beth yw'r sgil effeithiau?**

Yn ystod yr ychydig wythnosau cyntaf, gallan nhw achosi cyflog, taflu fyny neu chwydu. Mae hyn fel arfer yn dibynnu ar y ddos a ddefnyddir. Os na fydd yn gwella ar ôl gostwng y ddos, yna mae'n rhaid rhoi'r gorau i'r cyffur. Yn fwy anghyffredin, gall achosi brech ar y croen, pen tost, poen yn y cymalau, neu boen yn y bol. Mewn rhai achosion anghyffredin, gall affeithio ar yr afu. Fodd bynnag, mae'r mwyafrif o gleifion yn gallu cymryd y cyffuriau heb unrhyw broblem.

Gallan nhw affeithio ar fêr yr esgyrn (lle mae'r celloedd coch yn cael eu creu) a gall achosi cwmp yn nifer y celloedd gwyn, y platennau neu'r haemoglobin. Oherwydd hyn, cymerir cyfrif gwaed rheolaidd tra byddwch yn cymryd y cyffur. Cyhyd ag y bydd y cyfrif gwaed yn cael ei fonitro, mae'n ddiogel defnyddio'r cyffur. Os byddwch chi'n datblygu heintiau annisgwyl neu ddifrifol, dylech ddweud wrth eich meddyg am hyn a chael gwirio eich cyfrif gwaed. Er bod gan y cyffuriau hyn record diogelwch tymor hir rhagorol, mae potensial i unrhyw gyffur sy'n affeithio ar y system imiwnedd affeithio ar fecanwaith amddiffyn y corff rhag datblygu tiwmor, os bydd yn cael ei gymryd am gyfnod hir. Mae pa hyd y byddwch yn aros ar y cyffur yn dibynnu ar ddifrifoldeb eich Clefyd Llid y Coluddyn a dylid trafod hyn gyda meddyg eich clinig.

Gwelwyd profion ceg y groth abnormal mewn merched sy'n cymryd Azathioprin a Mercaptopurin. Mae'n bwysig eich bod yn mynychu ar gyfer eich prawf ceg y groth ar yr amser priodol ac yn hysbysu eich Ymgynghorydd/ Nyrs IBD os gwelir unrhyw abnormaleddau.

### **A oes unrhyw ragofalon y gellid eu cymryd?**

Mae claf sy'n derbyn therapi imiwnoatoliol mewn ychydig mwy o risg o ddatblygu lymffomas a llidau eraill, sef canser y croen - felly dylid cyfyngu ar amlygiad i olau haul a golau UV a dylech wisgo dillad i'ch amddiffyn a defnyddio eli haul ffactor uchel.

Os byddwch chi'n dymuno beichiogi, dylech drafod hyn cynted ag sy'n bosibl gyda meddyg y clinig. Nid oes un adroddiad o gynnydd mewn risg i ffoetws ac mae nifer o ferched wedi cael beichiogrwydd llwyddiannus ar y cyffuriau hyn. Ond, byddai'n well gan nifer o ferched beidio â chymryd cyffuriau yn ystod beichiogrwydd os ydy eu hafiechyd o dan reolaeth. Mae'r cyffuriau'n gallu pasio i mewn i laeth y fron. Dylid cymryd asid ffolig yn ystod cenhedliad a thrwy gydol y beichiogrwydd.

Argymhellir hefyd eich bod yn cael y brechlyn ffliw bob blwyddyn a hefyd brechiad yn erbyn niwmonia niwmococcal.

### **A oes angen i mi gael archwiliadau cyn dechrau ar Azathioprin/Mercaptopurin**

Oes. Bydd yn rhaid i chi gael rhai profion gwaed cyn dechrau a hefyd rhai profion gwaed cyn sgrinio ar gyfer Hepatitis B, Hepatitis C, HIV, Varicella (Brech yr ieir) a Rubella (y frech Almaenig). Mae'r rhain yn heintiau firaol, ac mae angen gwirio eich imiwnedd.

## **Pa fath o fonitro fydd yn digwydd tra bydda i'n cymryd y cyffur?**

Byddan nhw'n gwirio eich cyfrif gwaed yn llawn bob pythefnos hyd nes i ddos y cyffur sefydlogi. Bydd hwn yn cael ei wneud yn gyntaf drwy'r clinig yn yr ysbyty ac yna, mae'n bosibl y gellir ei drosglwyddo i gael ei gynnal yn eich meddygfa. Mae'n rhaid gwirio gwaed rhai cleifion yn amlach.

## **Beth os bydd gen i unrhyw gwestiwn arall?**

Dylech siarad â'ch gastroenterolegydd, neu ffonio'r Nyrsys IBD ar (01633) 656055. Mae mwy o wybodaeth ar gael drwy Crohns and Colitis UK ([www.crohnsandcolitis.org.uk](http://www.crohnsandcolitis.org.uk))

## **IBD – Nyrsys Clinigol Arbenigol**

Allyson Lewis, IBD Nyrs Glinigol Arbenigol (IBD)

Ffôn:- 01633 – 656055

E-bost:- [IBDHelp@wales.nhs.uk](mailto:IBDHelp@wales.nhs.uk)

Nicola Bowler – Nyrs Glinigol Arbenigol (IBD)

Ffôn:- 01633 - 656055

E-bost: - [IBDHelp@wales.nhs.uk](mailto:IBDHelp@wales.nhs.uk)

Nichola Brown – Nyrs Glinigol Arbenigol (IBD)

Ffôn:- 01633 - 656055

E-bost:- [IBDHelp@wales.nhs.uk](mailto:IBDHelp@wales.nhs.uk)

## **Ysbyty Brenhinol Gwent**

Dr Amudhu Somasekar, Ymgynghorydd Gastroenteroleg

Rhif Ffôn yr Ysgrifenyddes:- 01633 – 234451

Dr Vivek Goel, Ymgynghorydd Gastroenteroleg

Rhif Ffôn yr Ysgrifenyddes:- 01633 – 234447

Dr Nimal Balaratnam, Ymgynghorydd Meddygol

Rhif Ffôn yr Ysgrifenyddes:- 01633 – 656220

Dr Alka Joshi, Ymgynghorydd Gastroenteroleg

Rhif Ffôn yr Ysgrifenyddes:- 01633 - 234789

## **Ysbyty Nevill Hall**

Dr Andrew Phillips, Ymgynghorydd Gastroenteroleg

Rhif Ffôn yr Ysgrifenyddes:- 01873 - 732430

## **Ysbyty Ystrad Fawr**

Dr. Adnan U Rahman, Ymgynghorydd Gastroenteroleg  
Rhif Ffôn yr Ysgrifenyddes:- 01443 – 802216

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /  
This document is available in English**